

## Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

|                                                 |                                                                                                                 |
|-------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Teitl a diben polisi (amlinelliad bras):</b> | <b>Bil lechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru)</b>                                                          |
| <b>Enw swyddog:</b>                             | <b>Swyddog drafftio:</b> Adrian Green / Alison Thomas<br><b>Arweinwyr polisi:</b> Tracey Breheny, Gareth Hewitt |
| <b>Adran:</b>                                   | <b>Adran lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</b>                                                                 |
| <b>Dyddiad:</b>                                 | <b>Adolygwyd Ddiwethaf Mehefin 2015</b>                                                                         |
| <b>Llofnod:</b>                                 | <b>AG / AT</b>                                                                                                  |

## 1. Nodwch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.

Ym Mhapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd *"Gwrando Arnoch Chi: Mae Eich Iechyd yn Bwysig"* a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill 2014, daethpwyd â nifer o gynigion deddfwriaethol ynghyd er mwyn mynd i'r afael â phryderon penodol ym maes iechyd y cyhoedd drwy ddefnyddio deddfwriaeth. Mae'r cynigion yn gyson ag egwyddorion gofal iechyd darbodus gan eu bod yn ceisio mabwysiadu dull ataliol, sy'n golygu gweithredu ar adegau sydd â photensial i leihau neu osgoi'r costau cymdeithasol ac ariannol uwch yn yr hirdymor sy'n gysylltiedig â salwch y gellir ei osgoi.

Mae Llywodraeth Cymru yn dwyn cynigion deddfwriaethol gerbron i gyflwyno system Isafbris Uned ar gyfer alcohol yng Nghymru o dan y **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru)** sydd wedi ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Amcan y Bil drafft, fel Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Mehefin 2015, yw datblygu ar lwyddiannau o fewn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru er mwyn ymateb i faterion pwysig sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Bydd y cynigion hyn yn gosod pris isaf ar gyfer uned o alcohol, gan olygu nad oes modd gwerthu alcohol yn is na'r pris hwnnw. Ar hyn y bryd cynigir mai 50c ddylai'r Isafbris Uned fod. Y nod cyffredinol yw gostwng defnydd niweidiol o alcohol yng Nghymru, gan leihau'r lefel gynyddol o achosion o dderbyn pobl i ysbytai ac achosion o salwch y gellir eu priodoli i alcohol, a nifer y marwolaethau cysylltiedig ag alcohol. Ni fydd pris pob diod alcoholaidd yn codi yn sgil cyflwyno Isafbris Uned, dim ond y rhai sy'n cael eu gwerthu am bris is na'r Isafbris Uned a sefydlir. Cynigir y bydd y system Isafbris Uned yng Nghymru'n cael ei gweithredu a'i gorfodi dan arweiniad yr awdurdodau lleol.

Ceir problem glir a pharhaus o ran camddefnyddio alcohol yng Nghymru, a gwelir cryn dystiolaeth i gefnogi'r ffaith bod hyn yn arwain at amrywiaeth o niweidiau cymdeithasol ac o ran iechyd. Yn 2013, bu 467 o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, ymysg dynion yn bennaf. Ceir dystiolaeth glir hefyd bod pris a fforddiadwyedd alcohol yn ffactor allweddol o ran ysgogi pobl i'w ddefnyddio ac o ran sbarduno'r niwed cysylltiedig i unigolion a chymunedau ehangach. Yn gyffredinol, mae achosion o dderbyn pobl i ysbytai o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol yng Nghymru, ynddynt eu hunain, yn costio oddeutu £109 miliwn y flwyddyn.

Mae Isafbris Uned yn rhan bwysig o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau niwed cysylltiedig ag alcohol, ar sail ei allu i dargedu arferion yr unigolion sydd fwyaf tebyg o ddioddef o salwch a marwolaeth (sef yfwrwr peryglus ac arbennig o niweidiol, gan gynnwys pobl ifanc), a chael llai o effaith ar yfwrwr

cymedrol, yn enwedig y rhai ar incwm isel. Fe'i cynllunnir i dargedu cynhyrchion alcohol sy'n cael eu gwerthu am brisiau annerbyniol o isel o'u cymharu â lefel yr alcohol sydd ynddynt.

## **2. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol arnom ni i ymgysylltu â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o ganllawiau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi hwn. Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig hwn fel rhan o'r Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, rhwng 2 Ebrill a 24 Mehefin 2014. Mae'r Papur Gwyn a'r adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad ar gael yn:

<http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/white-paper/?skip=1&lang=cy>

Yn ogystal â chwestiynau manwl ar bob cynnig, roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cwestiwn penodol yn gofyn am ymatebion ynglŷn ag effeithiau posibl y cynnig ar hawliau dynol a'r nodweddion gwarchodedig, fel y'u rhagnodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Ni nododd yr ymatebwyr y byddai'r cynnig hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar y grwpiau hyn, a nodwyd yn aml y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn eu cyfanrwydd yn debyg o gael effeithiau cadarnhaol yn gyffredinol.

Cafwyd cefnogaeth eang yn gyffredinol i'r cynnig gan sefydliadau iechyd, y sector llywodraeth leol a sefydliadau'r sector gwirfoddol. Ymysg yr ymatebion o blaid cyflwyno isafbris uned, cyfeiriodd rhai ymatebion yn uniongyrchol at dystiolaeth yn cefnogi isafbris uned ac amlinellu'r manteision y gellid eu cyflawni o ran iechyd. Roedd y canlynol ymysg y dadleuon mwyaf cyffredin o blaid isafbris uned ar gyfer alcohol:-

- *Mae'n fesur wedi'i dargedu a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y rhai sy'n yfed fwyaf, ac yn cael effaith lawer llai ar y rhai sy'n yfed o fewn y canllawiau a argymhellir;*

- *Byddai'n helpu i ostwng nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ogystal â bod yn llesol i iechyd y cyhoedd;*

- *Mae effeithiau andwyol yfed gormod o alcohol yn achosi niwed i gymdeithas ac yn rhoi baich annerbyniol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; a*

- *Dylid datblygu mecanweithiau prisio sy'n golygu nad yw hi mor hawdd cael gafael ar alcohol a werthir am bris annerbyniol o isel o'i gymharu â'r alcohol y mae'n ei gynnwys, ac i atal y tueddiad lle mae llai o'r gwerthiant alcohol yn digwydd mewn tafarndai.*

Ymysg yr ymatebion a oedd yn gwrthwynebu'n gyffredinol y syniad o gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol, roedd y rhai mwyaf cyffredin yn awgrymu y byddai isafbris alcohol yn effeithio ar yfwr cyfrifol a'r rhai ar incwm is. Awgrymodd rhai hefyd mai ychydig o wahaniaeth y byddai isafbris uned yn ei wneud i'r rhai sy'n

goryfed mewn pyliau neu'r rhai sy'n gaeth i alcohol, gan y byddent yn prynu alcohol am unrhyw bris.

Y tu hwnt i'r ymarfer ymgynghori ffurfiol, cynhaliwyd mwy o waith rhagweithiol i ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl sydd â rhai o'r nodweddion gwarchodedig y mae'r asesiad hwn yn ymdrin â nhw. Un mater y tynnwyd sylw ato yn sgil y gwaith hwn hyd yn hyn yw'r perygl y gallai rhai pobl sy'n gaeth i alcohol roi mwy o flaenoriaeth i brynu alcohol nag i anghenion eraill megis gwres neu brydau bwyd i'r plant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y diwydiant manwerthu diodydd alcohol a rhanddeiliaid eraill ac maent hefyd yn targedu amrywiaeth o bobl sy'n agored i niwed neu mewn trallod a allai fod yn yfwyr niweidiol.

### **3. Rhaid i'ch penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Pa sylfaen dystiolaeth ydych chi wedi ei defnyddio? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth hon e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ydych chi'n ystyried bod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes unrhyw fylchau yn y dystiolaeth?**

Ceir dystiolaeth gymhellol, wedi ei chasglu dros ddegawdau o ymchwil, bod alcohol yn achosi niwed a bod y tebygolrwydd o niwed yn gymesur â faint o alcohol a yfir. Rhaid ystyried materion penodol mewn cysylltiad â chamddefnyddio alcohol, yn enwedig i leiafrif sylweddol o bobl sy'n yfed gormod heb sylweddoli'r niwed y maent yn ei wneud iddynt eu hunain. Ceir dystiolaeth eglur hefyd fod pris a fforddiadwyedd alcohol yn ffactor allweddol sy'n ysgogi pobl i yfed alcohol ac yn sbarduno'r niwed cysylltiedig i unigolion a chymunedau ehangach.

Yng Nghymru, mae adroddiad diweddar<sup>1</sup> gan Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd wedi dangos 'er ein bod yn gwneud cynnydd, bod llawer mwy i'w wneud os ydym am leihau'r niwed y gellir ei osgoi y mae alcohol yn ei achosi i deuluoedd, i fusnesau ac i gymunedau ledled Cymru.' Er bod canran yr oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau wedi gostwng rhywfaint ers 2008, yn Arolwg Iechyd Cymru 2014,<sup>2</sup> roedd 40% o oedolion yn dal i ddweud eu bod wedi yfed mwy na'r lefelau a argymhellir ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos flaenorol, gan gynnwys 24% a oedd yn dweud eu bod yn yfed mwy na dwywaith y canllaw dyddiol (goryfed mewn pyliau).

<sup>1</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru, 'Alcohol ac Iechyd yng Nghymru 2014'

<sup>2</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy>

Dengys data Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol bod arferion yfed ymysg pobl ifanc yn dal i achosi pryder, gydag 17% o fechgyn a 14% o ferched 11-16 oed yng Nghymru yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos yn 2009-10<sup>3</sup>.

Cafodd oddeutu 15,500 o achosion a oedd yn ymwneud yn benodol ag alcohol eu derbyn i ysbytai yng Nghymru yn 2011-12 (oedolion a phlant). Mae'r achosion hyn yn cynnwys cleifion mewnol a chleifion dydd sy'n cael eu derbyn oherwydd cyflyrau sy'n llwyr gysylltiedig ag alcohol (er enghraifft clefyd alcoholaidd yr afu/iau neu orddos o alcohol). Gan fod nifer o gyflyrau eraill sy'n rhannol gysylltiedig ag alcohol yn achosi i bobl gael eu derbyn i'r ysbyty, nid yw'r data'n adlewyrchu baich gwirioneddol alcohol o ran iechyd y boblogaeth a gwasanaethau iechyd.

Roedd ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield yn 2008 (Booth, Andrew, et al (2010), *Alcohol pricing and criminal harm: a rapid evidence assessment of the published research literature*, ScHARR, Prifysgol Sheffield) yn dangos y byddai isafbris uned o 50c yn effeithiol o safbwynt annog pobl i yfed llai o alcohol ledled Lloegr. Datblygwyd mwy ar y gwaith hwn yn 2009 ar ôl gwaith ychwanegol a gomisiynwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (NICE). Canfu'r gwaith ymchwil hwn y byddai isafbris uned o 50c yn targedu arferion yfed anghyfrifol ac yn cael effaith ar yfwyr peryglus a niweidiol, heb roi gormod o faich ariannol ychwanegol ar yfwyr cymedrol a gwerthiant mewn mannau lle mae'r cynnyrch yn cael ei yfed ar y safle. Yn gyffredinol, roedd y corff y dystiolaeth yn ystyried y byddai isafbris uned yn cael effaith sylweddol o ran lleihau niwed cysylltiedig ag alcohol.

Ceir dystiolaeth ehangach o wledydd eraill (mae Canada, Sweden ac Alaska yn enghreifftiau nodedig) sy'n dangos bod llai o alcohol yn cael ei yfed wrth i bris alcohol godi ac – yn hanfodol – bod nifer yr achosion o niwed a marwolaeth cysylltiedig ag alcohol yn lleihau.

Mae Prifysgol Sheffield wedi cynnal arfarniad seiliedig ar fodel o'r isafbris uned yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad <http://gov.wales/Sheffield Report 2015> <<http://gov.wales/statistics-and-research/research-likely-impact-public-attitudes-towards-minimum-unit-price-alcohol/?lang=en>> ar 8 Rhagfyr ac mae'r model yn dangos cysylltiad cryf a chyson rhwng pris alcohol a'r galw am alcohol. Mae'r model hefyd yn dangos cysylltiad cryf a chyson rhwng cynnydd yn y pris, gostyngiadau yn y lefelau yfed a gostyngiad dilynol mewn niwed cronig ac aciwt i iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru felly o'r farn fod cyfoeth o dystiolaeth yn bodoli yng Nghymru i gefnogi'r syniad o gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol.

<sup>3</sup> <http://www.ias.org.uk/Alcohol-knowledge-centre/Underage-drinking/Factsheets/Prevalence-of-underage-drinking.aspx>

***Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd yr ydych chi wedi eu canfod a allai wella neu hyrwyddo cydraddoldeb.***

### **Effaith**

Cwblhewch yr adran nesaf er mwyn dangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / ymarfer effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler dogfen ganllaw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael mwy o wybodaeth).

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â mynd ymlaen i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Amlygwch unrhyw fylchau yn y dystiolaeth yr ydych chi wedi eu canfod ac eglurwch a ydych/sut yr ydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn.

**4.1 A ydych chi'n meddwl y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?**

| Oedran                                              | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Ym mha ffordd y gallai effeithio?                                                                                                                                                                                                                                                |
|-----------------------------------------------------|------------|----------|--------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pobl iau<br><br>(Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed) | x          |          |              | Ystyrir y bydd y cynigion yn cael effaith lesol yn gyffredinol ar ieuchyd plant. Er y derbynnir yn gyffredinol na ddylai plant fod yn yfed alcohol, mae nifer fawr yn dal i wneud hynny. Bwriad isafbris uned yw annog pobl i yfed llai o alcohol a lleihau'r niweidiau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae hyn yn cynnwys annog plant a phobl |

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|--|--|--|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>ifanc i yfed llai o alcohol.</p> <p>Gall cyflyrau a chlefydau cronig sy'n gysylltiedig ag yfed gormod o alcohol ymhlith oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc, a gallant ddioddef effeithiau penodol ar iechyd yn sgil camddefnyddio alcohol yn ystod eu llencyndod. Ymhlith pobl sydd wedi dechrau yfed yn ifanc, gwelir tueddiad uwch hefyd i fod yn ddibynnol ar alcohol pan fyddant yn oedolion, yn ogystal ag amrywiaeth o ganlyniadau niweidiol eraill.</p> <p>Awgrymodd Comisiynydd Plant Cymru yn ei ymateb i Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd ei fod yn cefnogi isafbris uned, gan nodi y dylai isafbris uned, ynghyd â mwy o wyliaidwriaeth er mwyn rhwystro safleoedd rhag gwerthu alcohol i bobl ifanc o dan 18, olygu bod pobl ifanc o dan oed yn yfed llai o alcohol yn ogystal ag atal pobl ifanc rhag yfed.</p> <p>Anogodd Lywodraeth Cymru i fonitro gweithrediad y system yn ofalus er mwyn osgoi sefyllfa lle y byddai rhai pobl ifanc yn symud tuag at yfed alcohol cryfach yn sgil y prisiau cynyddol.</p> <p>Mae perygl y bydd rhai rhieni/gofalwyr yn parhau i yfed yr un faint o alcohol ag ar hyn o</p> |
|--|--|--|--|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|                  |   |   |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|------------------|---|---|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                  |   |   |  | bryd, gan beri iddynt ddefnyddio'r arian a neilltuwyd ar gyfer materion teuluol neu ddomestig i dalu am gost uwch alcohol yn sgil cyflwyno'r isafbris uned.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Pobl 18 i 50 oed | x |   |  | <p>Amcan yr isafbris uned yw cael effaith gadarnhaol o ran iechyd ar gyfer y gymdeithas yn gyffredinol, drwy helpu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol a mynd i'r afael â'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.</p> <p>Rhagwelir y bydd yr isafbris uned yn effeithio i wahanol raddau ar unigolion yn y grŵp oedran hwn, yn ddibynnol ar faint o alcohol maent yn ei yfed. Bydd yr isafbris uned yn targedu arferion yr unigolion sydd fwyaf tebygol o ddioddef salwch a marwolaeth (sef yfwyr peryglus ac arbennig o niweidiol, gan gynnwys oedolion ifanc), ac yn cael llai o effaith ar yfwyr cymedrol, yn arbennig y rhai ar incwm is.</p> |
| Pobl hŷn (50+)   | x | X |  | Bwriedir i'r isafbris uned gael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl 50 oed a hŷn yn y gymdeithas yn gyffredinol, drwy helpu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol a mynd i'r afael â'r niweidiau o ran iechyd sy'n gysylltiedig â                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|--|--|--|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>chamddefnyddio alcohol.</p> <p>Mae data Arolwg Iechyd Cymru rhwng 2008 a 2014 yn awgrymu bod canran y bobl hŷn sy'n yfed mwy na'r canllaw dyddiol wedi cynyddu, ond bod pobl hŷn yn llai tebygol ar y cyfan o yfed mwy na'r hyn a argymhellir.</p> <p>Rhagwelir y bydd yr isafbris uned yn effeithio i wahanol raddau ar y grŵp oedran hwn. Mae'r isafbris uned yn targedu arferion yr unigolion sydd fwyaf tebygol o ddioddef salwch a marwolaeth (sef yfwyr peryglus a niweidiol), ac yn cael llai o effaith ar yfwyr cymedrol, gan gynnwys y rhai ar incwm isel - mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried grwpiau nad ydynt o fewn oedran gweithio.</p> <p>Ceir risg y bydd rhai pobl yn parhau i yfed yr un faint o alcohol ag ar hyn o bryd, gan beri iddynt ddefnyddio'r arian a neilltuwyd ar gyfer materion teuluol neu ddomestig i dalu am y gost uwch alcohol yn sgil cyflwyno'r isafbris uned.</p> |
|--|--|--|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

## 4.2 Am eu bod yn anabl?

| Nam                   | Cadarnhaol | Negyddol | Dim /<br>Dibwys | Rhesymau dros<br>eich penderfyniad<br>(gan gynnwys<br>tystiolaeth) / Ym<br>mha ffordd y<br>gallai effeithio?                                                                                                                                                                                            |
|-----------------------|------------|----------|-----------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Nam ar y<br>golwg     |            |          | X               | Ni ragwelir y bydd y<br>cynnig yn cael effaith<br>benodol gadarnhaol<br>na negyddol.                                                                                                                                                                                                                    |
| Nam ar y<br>clyw      |            |          | x               | Ni ragwelir y bydd y<br>cynnig yn cael effaith<br>benodol gadarnhaol<br>na negyddol.                                                                                                                                                                                                                    |
| Anabledd<br>corfforol |            |          | x               | Ni ragwelir y bydd y<br>cynnig yn cael effaith<br>benodol gadarnhaol<br>na negyddol.<br><br>Fodd bynnag, rydym<br>yn chwilio am<br>dystiolaeth ynghylch<br>effeithiau posibl ar<br>bobl sydd ag anabledd<br>sy'n defnyddio alcohol<br>er mwyn ymdopi â'u<br>sefyllfa.                                   |
| Anabledd<br>dysgu     |            |          | x               | Ni ragwelir y bydd y<br>cynnig yn cael effaith<br>benodol gadarnhaol<br>na negyddol.                                                                                                                                                                                                                    |
| Iechyd<br>meddwl      | x          |          |                 | Mae'r berthynas rhwng<br>alcohol a phroblemau<br>iechyd meddwl yn un<br>gymhleth. Awgryma<br>ymchwil y gall pobl fod<br>yn agored i ddatblygu<br>problemau iechyd y<br>meddwl yn sgil yfed yn<br>drwm, ac y gellir<br>defnyddio alcohol fel<br>dull o ymdopi wrth<br>wynebu problemau<br>iechyd meddwl. |

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|--|--|--|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>Mae potensial i'r isafbris uned gael effaith gadarnhaol drwy helpu i rwystro problemau iechyd meddwl, oherwydd y cysylltiadau ag yfed llawer o alcohol. Fodd bynnag, bydd angen cynnig gweithgareddau hefyd i gefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n yfed yn drwm.</p> <p>Roedd yr Adolygiad Marwolaethau Plant, a edrychodd ar hunanladdiadau tebygol ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2006-12, yn argymhell yn benodol y dylai Llywodraeth Cymru ystyried dulliau o rwystro plant a phobl ifanc rhag cael gafael ar alcohol.</p> <p>Yn ogystal, mae'r cysylltiad rhwng camddefnyddio alcohol a hunanladdiad wedi ei hen sefydlu, ac ystyrir fod alcohol yn ddylanwad mawr ar gyfradd hunanladdiad dynion ifanc yn enwedig.</p> <p>Ceir risg y bydd rhai pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn parhau i yfed yr un faint o alcohol ag ar hyn o bryd gan arwain at ddefnyddio'r arian a neilltuwyd ar gyfer</p> |
|--|--|--|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|                                     |   |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|-------------------------------------|---|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                     |   |  |  | materion teuluol neu ddomestig i dalu am gost uwch alcohol yn sgil cyflwyno'r isafbris uned.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| Problemau eraill cysylltiedig â nam | x |  |  | <p>Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn nodi pa mor bwysig yw cydnabod effaith isafbris uned ar unigolion sy'n gaeth i alcohol; yr angen i asesu a fyddent yn gwario cyfrannau mwy fyth o'u harian domestig ar alcohol, ar draul eitemau hanfodol megis bwyd, dillad ac ynni.</p> <p>Wrth gyflwyno isafbris uned mae angen i hyn ffurfio rhan o gyfres ehangach o weithgarwch, gan gynnwys gwasanaethau a chymorth priodol i'r rhai sy'n gaeth i alcohol.</p> |

#### 4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu fenyw)?

| Rhyw   | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/<br>Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Ym mha ffordd y gallai effeithio?                              |
|--------|------------|----------|----------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dynion | x          |          |                | Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddynion a menywod, gan mai bwriad yr isafbris uned yw cael effaith |

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|--|--|--|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>gadarnhaol o ran iechyd ar y gymdeithas gyfan, drwy helpu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol a mynd i'r afael â'r niweidiau o ran iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.</p> <p>Dynion oedd y rhan fwyaf o'r 467 o farwolaethau cysylltiedig ag alcohol yng Nghymru yn 2013, ac felly mae dynion yn arbennig yn debygol o elwa o'r cynnig hwn.</p> <p>Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr isafbris uned yn effeithio ar ddynion i raddau amrywiol, yn ddibynnol ar faint o alcohol maent yn ei yfed.</p> <p>Bydd yr isafbris uned yn targedu arferion yr unigolion sydd fwyaf tebygol o ddioddef o salwch a marwolaeth (sef yfwyr peryglus ac arbennig o niweidiol), ac yn cael llai o effaith ar yfwyr cymedrol, yn enwedig y rhai sydd ar incwm isel.</p> <p>Ceir risg y bydd rhai dynion yn parhau i yfed yr un faint o alcohol ag ar hyn o bryd, gan beri iddynt ddefnyddio'r arian a neilltuwyd ar gyfer materion teuluol neu ddomestig i dalu am gost uwch alcohol yn sgil cyflwyno'r isafbris uned.</p> |
|--|--|--|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|         |   |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|---------|---|--|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Menywod | x |  |  | <p>Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddynion a menywod, gan mai bwriad yr isafbris uned yw cael effaith gadarnhaol o ran iechyd ar y gymdeithas gyfan, drwy helpu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol a mynd i'r afael â'r niweidiau o ran iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.</p> <p>Er mai dynion yw mwyafrif y rhai sy'n marw o achosion cysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, mae'r cynnydd canrannol yn nifer y marwolaethau ymhlith menywod yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf wedi bod yn uwch na'r cynnydd ymhlith dynion.</p> <p>Rhagwelir y bydd yr isafbris uned yn effeithio ar fenywod i raddau amrywiol, yn ddibynnol ar faint o alcohol maent yn ei yfed. Bydd yr isafbris uned yn targedu arferion y menywod sydd fwyaf tebygol o ddioddef o salwch a marwolaeth (sef yfwyr peryglus ac arbennig o niweidiol), ac yn cael llai o effaith ar yfwyr cymedrol, yn enwedig y rhai sydd ar incwm isel.</p> <p>Ceir risg y bydd rhai menywod yn parhau i yfed yr un faint o alcohol ag ar hyn o bryd, gan beri iddynt ddefnyddio'r arian a neilltuwyd ar</p> |
|---------|---|--|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|  |  |  |  |                                                                                                    |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | gyfer materion teuluol neu ddomestig i dalu am gost uwch alcohol yn sgil cyflwyno'r isafbris uned. |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------|

#### 4.4 Am eu bod yn drawsrywiol?

| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Ym mha ffordd y gallai effeithio?                                        |
|-------------|------------|----------|--------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|             |            |          | x            | Rhagwelir ychydig iawn o effaith. Ni chodwyd unrhyw faterion penodol mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd. |

#### 4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / ym mha ffordd y gallai effeithio?                 |
|-------------------------------|------------|----------|--------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Priodas                       |            |          | x            | Ni fydd y cynnig yn effeithio ar neb, yn gadarnhaol nac yn negyddol, oherwydd priodas neu bartneriaeth sifil. |
| Partneriaeth Sifil            |            |          | x            |                                                                                                               |

#### 4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

| Beichiogrwydd a Mamolaeth       | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Ym mha ffordd y gallai effeithio?                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|---------------------------------|------------|----------|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Beichiogrwydd                   | <b>X</b>   |          |              | <p>Cyngor NICE ar yfed yn ystod beichiogrwydd yw y dylai menywod ymwrthod ag alcohol yn llwyr yn ystod tri mis cyntaf beichiogrwydd oherwydd y perygl o golli'r plentyn. Ar gyfer gweddill y beichiogrwydd, argymhellir yfed dim mwy nag un neu ddwy uned o alcohol unwaith neu ddwywaith yr wythnos.</p> <p>Gan mai nod yr isafbris uned yw sicrhau yr yfir llai o alcohol yn gyffredinol, byddai unrhyw ostyngiad ymhlith merched beichiog yn effaith gadarnhaol.</p> |
| Mamolaeth (cyfnod ar ôl y geni) |            |          | <b>X</b>     | <p>Cynghorir mamau i beidio ag yfed mwy nag un neu ddwy uned unwaith neu ddwywaith yr wythnos wrth fwydo ar y fron. Gall mwy na hyn achosi problemau a all effeithio ar ddatblygiad y baban a lleihau'r cyflenwad o laeth y fron (NHS</p>                                                                                                                                                                                                                               |

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>Choices).</p> <p>Ychydig iawn o effaith, os o gwbl, y bydd yr isafbris uned yn ei chael ar famau newydd sy'n dilyn cyngor ar yfed alcohol wrth fwydo ar y fron.</p> <p>Gan mai nod yr isafbris uned yw sicrhau yr yfir llai o alcohol yn gyffredinol, byddai unrhyw ostyngiad ymhlith mamau newydd yn effaith gadarnhaol.</p> |
|--|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

#### 4.7 Oherwydd eu hil?

| Hil                                                      | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Ym mha ffordd y gallai effeithio?                                                                                           |
|----------------------------------------------------------|------------|----------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pobl o dras ethnig leiafrifol, er enghraifft Asiaidd, Du | X          |          |              | Mae adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd " <i>Tackling Harmful Alcohol Use – Economics and Public Health Policy</i> ," <sup>4</sup> a gyhoeddwyd ar 12 |

<sup>4</sup> [http://www.oecd-ilibrary.org/social-issues-migration-health/tackling-harmful-alcohol-use\\_9789264181069-en;jsessionid=ap711o5b1j4u3.x-oecd-live-03](http://www.oecd-ilibrary.org/social-issues-migration-health/tackling-harmful-alcohol-use_9789264181069-en;jsessionid=ap711o5b1j4u3.x-oecd-live-03)

|                                               |   |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|-----------------------------------------------|---|--|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                               |   |  |  | Mai 2015, yn nodi bod diwylliant yn dylanwadu'n gryf ar sawl agwedd ar yfed alcohol. Os bydd gan bobl hunaniaeth ethnig yn gysylltiedig â gwreiddiau diwylliannol neu grefyddol cryf, ymddengys yn rhesymol tybio y bydd eu tras yn dylanwadu ar eu hymddygiad o ran yfed. Mae'n bosibl mai diwylliant cysylltiedig â tharddiad ethnig yw'r prif ffactor sy'n egluro patrwm yfed unigolyn penodol, yn hytrach na statws cymdeithasol, oed, neu addysg er enghraifft. Dengys canlyniadau fod grwpiau ethnig lleiafrifol yn yfed llai ar y cyfan. |
| Tarddiad cenedlaethol (e.e. Cymraeg, Saesneg) | x |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Ceiswyr lloches a ffoaduriaid                 | x |  |  | Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion, gan mai bwriad yr isafbris uned yw cael effaith gadarnhaol o ran iechyd ar y gymdeithas gyfan.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| Sipsiwn a theithwyr                           | x |  |  | Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion, gan mai bwriad yr isafbris uned yw cael effaith                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |

|            |   |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|------------|---|--|--|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|            |   |  |  | <p>gadarnhaol o ran iechyd ar y gymdeithas gyfan, drwy helpu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol a mynd i'r afael â'r niweidiau o ran iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.</p> <p>Er y rhagwelir mai ychydig o effaith y bydd y cynnig yn ei chael, ceir risg y gallai rhai pobl mewn grwpiau penodol, gan gynnwys cymuned y sipsiwn a'r teithwyr sy'n gaeth i alcohol, roi blaenoriaeth i brynu alcohol dros anghenion eraill.</p>                                        |
| Mewnfudwyr | x |  |  | <p>Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion, gan mai bwriad yr isafbris uned yw cael effaith gadarnhaol o ran iechyd ar y gymdeithas gyfan, drwy helpu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol a mynd i'r afael â'r niweidiau o ran iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.</p> <p>Ceir risg y bydd rhai pobl yn parhau i yfed yr un faint o alcohol ag ar hyn o bryd, gan beri iddynt ddefnyddio'r arian a neilltuwyd ar gyfer materion teuluol neu</p> |

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                    |
|--|--|--|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>ddomestig i dalu am gost uwch alcohol yn sgil cyflwyno'r isafbris uned.</p> <p>Ni ragwelir unrhyw effeithiau anghymesur ac eithrio'r rhai a ystyrir ac a restrir ar gyfer y nodweddion gwarchodedig eraill.</p> |
|--|--|--|--|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

#### 4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred                                                                                            | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Ym mha ffordd y gallai effeithio?                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------|----------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Gwahanol grwpiau crefyddol er enghraifft Mwslemiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch) | x          |          |              | Rhagwelir y bydd yr isafbris uned yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion nad ydynt yn ymwrthod ag alcohol (oherwydd eu credoau crefyddol neu gredoau eraill) gan y bwriedir iddo gael effaith gadarnhaol o ran iechyd ar y gymdeithas gyfan, drwy helpu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol a mynd i'r afael â'r niweidiau o ran iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol. |
| Cred er enghraifft Dyneiddwyr                                                                                               | x          |          |              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| Diffyg cred                                                                                                                 | x          |          |              | Ceir risg y bydd rhai pobl yn parhau i yfed yr un faint o alcohol ag ar hyn o bryd, gan beri iddynt ddefnyddio'r arian a neilltuwyd ar gyfer materion teuluol neu ddomestig i dalu am gost uwch alcohol yn sgil                                                                                                                                                                         |

|  |  |  |  |                                                                                 |
|--|--|--|--|---------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | cyflwyno'r isafbris uned. Fodd bynnag ni ragwelir unrhyw effeithiau anghymesur. |
|--|--|--|--|---------------------------------------------------------------------------------|

#### 4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Ym mha ffordd y gallai effeithio?                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|----------------------|------------|----------|--------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dynion hoyw          | x          |          |              | <p>Mae'r dystiolaeth ynglŷn ag alcohol a'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol yn gyfyngedig. Fodd bynnag ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n dangos bod y grŵp hwn yn yfed mwy o alcohol na'r boblogaeth gyffredinol.</p> <p>Am amrywiol resymau, mae rhai elfennau o fywyd cymdeithasol mewn cymunedau Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol wedi tueddu i grynhoi mewn bariau a chlybiau lleol i bobl hoyw.</p> <p>Er na fydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, mae angen ystyried y rôl gymunedol arbennig y mae bariau a chlybiau i bobl hoyw'n ei gyflawni, er mwyn sicrhau nad yw'r</p> |

|           |   |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|-----------|---|--|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|           |   |  |  | isafbris uned yn effeithio'n anghymesur ar y gymuned Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Lesbiaid  | x |  |  | <p>Mae'r dystiolaeth ynglŷn ag alcohol a'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol yn gyfyngedig. Fodd bynnag ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n dangos bod y grŵp hwn yn yfed mwy o alcohol na'r boblogaeth gyffredinol.</p> <p>Am amrywiol resymau, mae rhai elfennau o fywyd cymdeithasol mewn cymunedau Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol wedi tueddu i grynhoi mewn bariau a chlybiau lleol i bobl hoyw.</p> <p>Er na fydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, mae angen ystyried y rôl gymunedol arbennig y mae bariau a chlybiau i bobl hoyw'n ei gyflawni, er mwyn sicrhau nad yw'r isafbris uned yn effeithio'n anghymesur ar y gymuned Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol.</p> |
| Deurywiol | x |  |  | Mae'r dystiolaeth ynglŷn ag alcohol a'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol yn gyfyngedig. Fodd                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |

|  |  |  |  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|--|--|--|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  |  |  |  | <p>bynnag ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n dangos bod y grŵp hwn yn yfed mwy o alcohol na'r boblogaeth gyffredinol.</p> <p>Am amrywiol resymau, mae rhai elfennau o fywyd cymdeithasol mewn cymunedau Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol wedi tueddu i grynhoi mewn bariau a chlybiau lleol i bobl hoyw.</p> <p>Er na fydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, mae angen ystyried y rôl gymunedol arbennig y mae bariau a chlybiau i bobl hoyw'n ei gyflawni, er mwyn sicrhau nad yw'r isafbris uned yn effeithio'n anghymesur ar y gymuned Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol.</p> |
|--|--|--|--|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

#### 4.10 A ydych chi'n meddwl y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ynteu negyddol ar hawliau dynol pobl?

*Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Canllawiau er mwyn cael mwy o wybodaeth am Hawliau Dynol.*

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys |
|---------------|------------|----------|--------------|----------------------------------------------|
|               |            |          |              |                                              |

|                                                                                                         |  |  |  | <b>tystiolaeth) / Ym<br/>mha ffordd y<br/>gallai effeithio?</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|--|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Hawliau Dynol<br>gan gynnwys y<br>Ddeddf Hawliau<br>Dynol a<br>Chonfensiynau'r<br>Cenhedloedd<br>Unedig |  |  |  | <p>Ystyrir bod darpariaethau'r Bil drafft yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a dyletswydd Gweinidogion Cymru i weithredu er lles pennaf plant.</p> <p>Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi wrth i'r Bil drafft ddatblygu, a chynhelir rhagor o drafodaethau â rhanddeiliaid allweddol er mwyn cael eu cyfraniad.</p> |

***Llenwch Ran 2 os ydych chi wedi canfod unrhyw effeithiau (ar wahân i effeithiau dibwys), boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar unrhyw grŵp sydd â nodweddion gwarchodedig.***

***Dim ond os nad oes unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol neu os mai dim ond effeithiau dibwys a ganfuwyd y dylech fynd yn syth i ran 2 a llofnodi'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.***

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

### **1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a ystyriwyd yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:**

#### **1.1 Sut gallai, neu sut mae'r polisi'n cynorthwyo i ddatblygu / hyrwyddo cyfle cyfartal?**

Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchodedig?

Fel a ddangoswyd yn Rhan 1, effeithiau uniongyrchol cyfyngedig y mae'r polisi'n eu cael o ran cyfle cyfartal. Bydd y polisi yr un mor berthnasol i bob grŵp ac mae ganddo'r potensial i annog newid cymdeithasol mewn arferion yn ymwneud ag yfed alcohol.

Gallai'r isafbris uned effeithio mwy ar yr unigolion yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf sy'n yfed yn drwm, ond hwn yw'r grŵp sydd â'r risg uchaf o niwed cysylltiedig ag alcohol, ac a fydd yn cael y buddion iechyd gorau o'r polisi.

#### **1.2 Sut gallai / mae'r polisi / penderfyniad yn cynorthwyo i ddiddymu achosion o aflonyddu, erledigaeth neu wahaniaethu anghyfreithlon?**

Fel a nodwyd yn Rhan 1, mae'r polisi'n cael effaith gadarnhaol i bawb drwy wella'r effaith gadarnhaol ar iechyd y gymdeithas yn gyffredinol. Gwna hyn drwy helpu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol a mynd i'r afael â'r niweidiau o ran iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol. Ni ragwelir felly bod y polisi hwn yn gwahaniaethu mewn modd na ellir ei gyfiawnhau, nac yn achosi aflonyddwch nac erledigaeth.

#### **1.3 Sut gallai/mae'r polisi'n effeithio ar ddatblygu / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**

Mae amgylchedd cyffredinol sy'n annog pobl i weithredu mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo a diogelu eu hiechyd a'u lles eu hunain, yn ogystal â lles eu teuluoedd a'u cymuned ehangach yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol. Ceir nifer o fanteision cymdeithasol posibl felly, yn sgil gweithredu i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol. Mae'r rhain yn amrywio o fuddion iechyd i ostyngiad mewn trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gallai hyn fod o fudd i bob rhan o gymunedau amrywiol Cymru.

## 2. Cryfhau'r polisi

**2.1 Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol ('effaith andwyol') ar unrhyw rai o'r grwpiau gwarchodedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?**

**Pa newidiadau/camau ymarferol a allai gynorthwyo i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?**

Ceir risg y bydd rhai pobl yn parhau i yfed yr un faint o alcohol ag ar hyn o bryd, gan beri iddynt ddefnyddio'r arian a neilltuwyd ar gyfer materion teuluol neu ddomestig i dalu am gost uwch alcohol yn sgil cyflwyno'r isafbris uned. Dylai'r buddion yn y tymor hirach olygu bod llai alcohol yn cael ei yfed.

Ceir risg y gallai'r polisi hwn arwain at ganlyniadau anfwriadol – gallai arian y dylid ei wario ar bethau hanfodol megis bwyd, dillad ac ynni, gael ei wario ar alcohol.

**2.2 Os na fydd camau'n cael eu cymryd i liniaru effaith negyddol / andwyol neu gael gwared arnynt, nodwch y cyfiawnhad dros hynny. (Cofiwch fod yn rhaid newid neu ddiwygio'r polisi os daethpwyd o hyd i wahaniaethu anghyfreithlon (ar unwaith neu botensial) o ganlyniad i'r polisi.)**

Amherthnasol – Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol y mae'n ofynnol gweithredu yn eu cylch yn Rhan 1. Ni ddylai unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon ddigwydd, gan mai diben y polisi yw gwella iechyd a lles cyffredinol.

## 3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

**Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**

Rhestrwch wybodaeth am unrhyw waith dilynol a fydd yn cael ei wneud mewn cysylltiad â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, gwaith monitro penodol ac ati).

Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei adolygu'n barhaus drwy gydol yr ymgynghoriad a datblygiad y ddeddfwriaeth, ac yn cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

Amcan y polisi, fel y caiff ei nodir yn y Bil drafft a'i ddisgrifio yn y memorandum esboniadol sy'n cyd-fynd â'r polisi, yw defnyddio egwyddorion iechyd darbus a deddfwriaeth i wella iechyd a chanlyniadau cysylltiedig eraill. Mae'r polisi yn un ataliol – bydd yn gwneud cyfraniad cryf at yr amcanion o hybu iechyd, atal pobl rhag camddefnyddio alcohol a lleihau niweidiau ac afiechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol. Bydd y canlyniadau hyn yn y pen draw yn cynorthwyo i leihau'r costau i'r

gwasanaeth iechyd yng Nghymru sy'n deillio o drin yr afiachusrwydd diangen sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.

Dengys tystiolaeth y bydd isafbris uned yn gwneud cyfraniad pwysig at gynorthwyo i leihau'r defnydd niweidiol o alcohol, a gall hyn gael ei amlygu mewn nifer o ffyrdd. Defnyddir amrywiaeth o ddangosyddion felly i fonitro effaith isafbris uned ar gyfer alcohol, gan gynnwys:

- Nifer y marwolaethau cysylltiedig ag alcohol yng Nghymru;
- Cyfraddau'r achosion lle y caiff cleifion eu derbyn i ysbytai am resymau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol (h.y. achosion sy'n llwyr gysylltiedig ag alcohol, megis clefyd alcoholaidd yr iau / afu neu orddos o alcohol);
- Cyfraddau marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol (marwolaethau sydd â'r cysylltiad mwyaf uniongyrchol ag alcohol, megis clefyd alcoholaidd yr iau / afu);
- Cyfraddau marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol (sy'n cynnwys marwolaethau oherwydd cyflyrau y gellir eu priodoli'n rhannol i alcohol);
- Tueddiadau yn y cyfraddau uchod ar draws gwahanol ardaloedd, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig;
- Data ynglŷn â'r defnydd o alcohol a gasglwyd drwy Arolwg Iechyd Cymru a'r arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol.

Bydd canlyniadau pob asesiad effaith pan fo'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

#### 4. Datganiad

Mae'r uchod yn asesiad teg o effeithiau posibl y polisi hwn.

|                                                                                                                           |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Swyddog yn Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb</b>                                                           |
| Enw:                                                                                                                      |
| Adrian Green / Alison Thomas                                                                                              |
| Adran:                                                                                                                    |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol                                                                                        |
| Dyddiad:                                                                                                                  |
| Adolygiad diwethaf Mehefin 2015                                                                                           |
| Llofnod:                                                                                                                  |
| Adrian Green                                                                                                              |
| <b>Pennaeth Is-adran (Cymeradwyo)</b>                                                                                     |
| Enw:                                                                                                                      |
| Tracey Breheny                                                                                                            |
| Teitl swydd ac adran:                                                                                                     |
| Dirprwy Gyfarwyddwr, Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol                                          |
| Dyddiad:                                                                                                                  |
| Adolygiad diwethaf Mehefin 2015                                                                                           |
| Llofnod:                                                                                                                  |
| Tracey Breheny                                                                                                            |
| Dyddiad Adolygu: Bydd pob asesiad effaith yn cael ei adolygu a'i ddiweddarw wrth i'r polisi a'r Bil drafft hwn ddatblygu. |